# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Chwefror 2013 i'w hateb ar 26 Chwefror 2013

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Yn dilyn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk, a wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y posibilrwydd o ddatganoli plismona yng Nghymru. OAQ(4)0921(FM)

2. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd y gwaith o weithredu'r Strategaeth Gwyddoniaeth wrth i'w blwyddyn gyntaf ddod i ben. OAQ(4)0927(FM)

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i gynorthwyo cyn-filwyr yng Nghymru. OAQ(4)0920(FM)

4. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu datblygu economaidd trawsffiniol yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0925(FM)

5. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau rhoi organau yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0930(FM)

**6. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. OAQ(4)0923(FM)**W**

**7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0928(FM)

**8. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am werthuso cydsyniadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0932(FM)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adfywio economi Cymru. OAQ(4)0919(FM)

**10. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau effaith llifogydd domestig. OAQ(4)0934(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau IVF ar gyfer trigolion Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0918(FM)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006. OAQ(4)0926(FM)

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twristiaeth yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0931(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod digon o wasanaethau cwnsela yn

cael eu darparu i blant sy’n cael eu cam-drin mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0922(FM)**W**

**15. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau y bydd canol trefi a’r stryd fawr yng Nghymru yn goroesi yn y dyfodol. OAQ(4)0933(FM)